



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



O FYFYRWRAIG I ATHRAWES... ASTUDIAETH ACHOS VICKY WILLIAMS

Mae Vicky yn hyfforddi i fod yn athrawes ym Mhrifysgol Bangor ac mae'n gobeithio y gall hi drosglwyddo ei brwdfrydedd ar gyfer Biolegi fyfyrwyr yng Nghymru. Yn wreiddiol o Durham ac yn aelod o'r gymuned teithwyr, mae'n siaradwraig Cymraeg hyderus erbyn hyn ac yn edrych ymlaen i sefyll o flaen dosbarth o fyfyrwyr.

"Fe wnes i ddod i Fangor yn wreiddiol i astudio chwaraeon, iechyd ac addysg gorfforol, ac os wyf yn onest, nid yw mor arferol â hynny i aelodau o deuluoedd teithwyr ddilyn gyrfa academiaidd, felly mae'n debyg fy mod yn eithaf unigryw o ran fy mod wedi dod mor bell â hyn, ond rwyf yn ei fwynhau cymaint."

Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth Vicky sylweddoli'n gyflym y byddai angen iddi siarad Cymraeg, er mwyn iddi **wirioneddol deimlo'n rhan o'r gymuned.**

"Fe wnes i ymrwymo i ddilyn cwrs iaith Gymraeg a bellach gallaf sgwrsio yn weddol rhugl ag eraill. Gan i mi fynychu'r ysgol yn Ngogledd Lloegr roedd fy addysg Bioleg fy hun drwy gyfrwng Saesneg, a gyda chynifer o dermau technegol yn cael eu defnyddio ynddo ar hyn o bryd mae'n gam rhy bell i mi ddysgu'r rhain yn y Gymraeg. Ond rwyf yn sylweddoli y bydd llawer o fy myfyrwyr yn siarad Cymraeg ac mae'n bendant yn dda gwybod y byddaf yn gallu sgwrsio â nhw yn eu hiaith eu hunain, hyd yn oed os na allaf addysgu ynddo (eto!)."

"Ar ôl graddio doeddwn i ddim rhy sicr beth yr oeddwn am ei wneud nesaf. Bûm yn gweithio am gyfnod fel ymgynghorydd colli pwysau rhan amser. Yn bendant fe wnaeth hyn roi mwy o hyder i mi gan fod rhaid i mi sefyll o flaen pobl a chyflwyno gwybodaeth a'u helpu. Credaf i hynny fy helpu i benderfynu dod yn athrawes, achos roeddwn i wir yn mwynhau defnyddio'r sgiliau hynny."

Felly aeth Vicky yn syth yn ôl i'r brifysgol, ond y tro hwn i wneud **cwrs TAR.**

"Yr wyf yn ffodus i allu gwneud fy nghwrs hyfforddi ym Mhrifysgol Bangor oherwydd rwyf yn ei adnabod mor dda eisoes, ac rwyf wedi cael profiadau cadarnhaol iawn yn ystod fy hyfforddiant yn Ysgol Eirias ac Ysgol Bryn Elian ym Mae Colwyn. Roeddwn eisoes wedi disgyn mewn cariad â'r ardal fel myfyriwr y tro cyntaf, felly gwyddwn mai dyma lle yr hoffwn ddechrau fy ngyrfa addysgu."

Mae hi hefyd yn ymwybodol o'r angen i ddenu mwy o **ferched i astudio pynciau STEM** a dyma fydd un o'i hamcanion craidd pan fydd hi'n dechrau addysgu go iawn.

"Teimlaf yn gryf y dylai plant a phobl ifanc gael y profiad gorau posibl yn yr ysgol, i'w helpu yn ddiweddarach mewn bywyd, ac yr wyf am drosglwyddo fy angerdd am fy mhwnic iddynt - yn enwedig i fyfyrwyr benywaidd eraill."

"Mae ymchwil yn dangos bod cyswllt rhwng plant sy'n astudio pynciau gwyddonol os yw'r fam ar yr aelwyd yn meddwl yn wyddonol, ac mae gennyf ddyhead i gael teuluoedd ynghlwm â gwyddoniaeth er mwyn iddo ddod yn ddatblygiad mwy naturiol i bobl ifanc ac nid yn bwnc 'brawychus' fel y cyfryw."

